**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR SAFONAU

# STANDARDS COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

****10.30am, DYDD LLUN, 28 IONAWR, 2013**

****10.30am, MONDAY, 28 JANUARY, 2013**

*(**nodwch amser cychwyn y cyfarfod ogydd / please note meeting start time)*

Lleoliad / Location

**Ystafell Gwyrfai,**
**Swyddfa'r Cyngor / Council Offices,**
**Stryd y Jêl / Shirehall Street,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*Dosbarthwyd/Distributed 21/01/13*

# PWYLLGOR SAFONAU
# STANDARDS COMMITTEE

### Aelodaeth/Membership

### Aelodau Etholedig / Elected Members (3)

Y Cynghorwyr/Councillors
Charles Wyn Jones
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

### Aelodau Annibynnol / Independent Members (5)

Ms Linda Byrne
Mr Gwilym Ellis Evans
Miss Margaret E Jones
Mr Sam W Soysa
Dr Einir Young

### Aelod Pwyllgor Cymuned / Community Committee Member (1)

Y Cynghorydd / Councillor David Clay

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd, 2012 fel rhai cywir (copi yma – papur melyn).

**5. CAIS AM ODDEFEB GAN Y CYNGHORYDD DYFRIG JONES**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur glas).

**6. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Ystyried adroddiad llafar y Swyddog Monitro (copi o gofnodion Fforwm 7 Ionawr yma – papur eog).

**7. CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur gwyrdd).

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur hufen).

**9. HYFFORDDIANT**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur lelog).

**10. BIL LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) CYMRU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur pinc).

**11. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur llwyd).

# PWYLLGOR SAFONAU, 27.11.12

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Gwilym Ellis Evans (Cadeirydd), Ms Linda Byrne a Miss Margaret E.Jones.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Sylwedyddion**: Y Cynghorydd Charles W.Jones a'r Dr Einir Young.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Mr Sam Soysa (Aelod Annibynnol).

Gan fod yna 3 aelod annibynnol a 4 aelod etholedig yn bresennol yn y cyfarfod, cytunodd y Cynghorydd Charles W.Jones i fod yno fel sylwedydd, er mwyn sicrhau cworwm, gan fod Erthygl 9 o Gyfansoddiad y Cyngor yn datgan y dylai o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau fod yn aelodau annibynnol. Gwahoddwyd yr aelod i gyfrannu i'r drafodaeth, ond eglurwyd na allai fod yn rhan o unrhyw benderfyniad ffurfiol.

## 1. CROESO

Croesawyd Dr Einir Young i'r cyfarfod fel sylwedydd yn sgil penderfyniad y Panel Ymgynghorol i'w hargymell i'r Cyngor ar 6 Rhagfyr fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATER BRYS – CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD W.GARETH ROBERTS

Nid oedd y mater hwn wedi'i gynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd iddo gael ei drafod fel eitem frys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd bod y cynghorydd yn dymuno siarad ym Mhwyllgor Cynllunio 17 Rhagfyr fel aelod lleol ar gais yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adeiladu Canolfan Ragoriaeth Dwristiaid Arfordirol ym maes parcio Henfaes, Aberdaron, er bod ganddo gysylltiad â'r mater.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod cysylltiad yr aelod â'r mater yn ymwneud â'r ffaith iddo weithio i'r Ymddiriedolaeth fel Warden Lleol am 12 mlynedd o 1985 i 1996, ei fod yn denant iddynt yng Nghwrt, Aberdaron ar hyn o bryd ac y bu'n rhan o'r Tîm (fel cynghorydd lleol) yn ogystal â chynrychiolydd arall o'r gymuned leol sydd wedi gweithio ar ddatblygu'r cynllun.

Ymhelaethodd ar drefniadaeth y Pwyllgor Cynllunio gan gyfeirio at hawliau'r aelod lleol a'r cyhoedd i siarad ar geisiadau. Eglurodd hefyd fod gan aelod lleol, sydd â buddiant, yr un hawl ag aelod o'r cyhoedd o dan y Cod i siarad am dri munud ar gais cynllunio, yn hytrach na 10 munud, fel a ganiateir yn arferol i aelodau lleol. Yn yr achos hwn, 'roedd yr aelod yn gofyn i'r pwyllgor ystyried codi'r gwaharddiad a chaniatáu iddo gael ei hawliau llawn fel aelod lleol i siarad am 10 munud, ond nid i bleidleisio, pan ystyrir y cais. Cynghorwyd y pwyllgor mai prif gysylltiad yr aelod oedd y ffaith ei fod yn denant i'r corff sy'n cyflwyno'r cais.

Wrth ystyried y cais, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y math hwn o gais. Sut mae'r etholwyr am ddehongli hyn, yn enwedig o gofio bod gan yr aelod yr hawl beth bynnag i siarad ar y cais am dri munud, neu i ofyn i aelod arall gyflwyno'r achos ar ei ran?
- Bod y cais yn ymddangos yn un pwysig i'r ardal a'i bod yn debygol y byddai'n cymryd mwy na thri munud i'r aelod gyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol i'r pwyllgor. Yr aelod lleol sy'n gwybod beth yw barn y gymuned ac yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r farn honno.
- Y gallai caniatáu'r cais osod cynsail ar gyfer ceisiadau tebyg yn y dyfodol.
- Bod rhaid ystyried pob cais ar ei haeddiant ei hun.
- Nad oedd gan yr aelod fuddiant personol â'r cais.
- Na fyddai gan yr aelod bleidlais.
- Na ystyrid bod yna wahaniaeth rhwng tri a deng munud, gan fod yr egwyddor o ganiatáu i aelod lleol sydd â buddiant siarad yn y Pwyllgor Cynllunio wedi'i gytuno beth bynnag.
- Er bod modd i'r aelod roi ei anerchiad ar bapur i aelod arall, diau ei fod wedi gweithio'n galed ar y mater hwn ac yn awyddus i gyflwyno ei achos ei hun.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am ollyngiad ar y sail:-**

- **Mai'r aelod lleol sy'n gwybod beth yw barn y gymuned ac yn y sefyllfa orau i gyflwyno'r farn honno yn y Pwyllgor Cynllunio.**
- **Nad yw caniatáu'r gollyngiad yn rhoi unrhyw hawl o'r newydd i'r aelod, eithr yn ymestyn yr hawl sydd ganddo eisoes i siarad am dri munud ar y cais.**
- **Nad oes gan aelod lleol bleidlais yn y Pwyllgor Cynllunio.**
- **Nad oes gan yr aelod gysylltiad personol â'r cais.**

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf a 26 Medi, 2012 fel rhai cywir.

**5. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi cofnodion cyfarfodydd o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 23 Ebrill ac 17 Gorffennaf, 2012.

Gan fod Is-gadeirydd y pwyllgor hwn yn absennol am gyfnodau o bryd i'w gilydd, holwyd a fyddai'n briodol dewis aelod arall o'r pwyllgor i ddirprwyo drosto yng nghyfarfodydd y Fforwm. Atebodd y Swyddog Monitro na ragwelai y byddai gan y Fforwm wrthwynebiad.

Gan gyfeirio at eitem 46 o'r cofnodion (cyfarfod 17 Gorffennaf) - Adborth o'r Sesiynau Hyfforddiant, nodwyd y dylid pwyso ar Lywodraeth Cymru i wneud Hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol i gynghorwyr newydd o'r etholiadau nesaf ymlaen. Mewn ymateb,

nododd y Swyddog Monitro fod holl aelodau Cyngor Gwynedd wedi derbyn yr hyfforddiant yn 2008 a bod pob aelod a etholwyd o'r newydd ar y Cyngor ym mis Mai 2012 wedi derbyn yr hyfforddiant hefyd. Ychwanegodd y byddai hyfforddiant yn bwnc penodol ar raglen cyfarfod Ionawr o'r pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi a derbyn yr adroddiad.**

**(b) Enwebu Mr David Clay i ddirprwyo dros y Cadeirydd / Is-gadeirydd yng nghyfarfodydd y Fforwm.**

**6. CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â chynhadledd 2013 ac yn gofyn i'r pwyllgor am eu barn ar y rhaglen ddrafft ac am unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill a fyddai o fudd i gynnal digwyddiad llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi a derbyn yr adroddiad.**

**(b) Cyflwyno'r awgrymiadau / sylwadau a ganlyn:-**

- **Y dylid treulio mwy o amser ar y gweithdai, a llai ar yr anerchiad.**
- **Bod angen bod yn glir beth yw'r allbynnau a sut y bydd llwyddiant y digwyddiad yn cael ei fesur.**
- **Bod gweithdrefnau datrys anghydfod lleol yn bwnc pwysig i'w drafod yn wyneb disgwyliad yr Ombwdsmon i awdurdodau sefydlu trefniadau lleol i ddatrys cwynion lefel isel o fewn y cynghorau.**

**(c) Penderfynu yng nghyfarfod Ionawr pwy'n union fydd yn mynd i'r gynhadledd, ar ôl derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r niferoedd a ganiateir.**

**7. CANLLAWIAU'R OMBWDSMON**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn manylu ar ddiwygiadau diweddar i Ganllawiau'r Ombwdsmon.

Cyfeiriwyd at lythyr yr Ombwdsmon at Brif Weithredwr pob Cyngor yn dilyn penderfyniad yn yr Uchel Lys ar achos Calver - v – The Adjudication Panel for Wales, oedd yn nodi y bydd yr Ombwdsmon yn cymryd agwedd fwy haearnaidd wrth benderfynu a yw am ymchwilio os yw'n ymddangos bod y gŵyn yn ymwneud â'r hyn y gellir ei alw yn fynegiant o farn wleidyddol.

Nododd y Swyddog Monitro fod y llythyr hwn wedi achosi cryn gynnwrf ymhlith cynghorwyr a swyddogion monitro gan ei fod wedi codi'r trothwy ar gyfer cychwyn ymchwiliad. Nododd, yn sgil cyflwyno'r llythyr i sylw Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol, y gofynnwyd iddi ddosbarthu Safon Gwynedd i bob aelod o'r Cyngor, fel y ddogfen sy'n llenwi'r bwlch hyd at y trothwy lle mae'r Ombwdsmon yn dechrau ymchwilio i gŵyn. Nododd ymhellach y byddai anfon y ddogfen allan yn enw'r Pwyllgor Safonau yn rhoi statws uwch iddi.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Nodi a derbyn yr adroddiad a bod unrhyw aelod sy'n dymuno copi caled o ganllawiau'r Ombwdsmon yn cysylltu â'r Swyddog Monitro.**

**(b) Cefnogi'r bwriad i anfon copi o Safon Gwynedd i holl aelodau'r Cyngor Sir yn enw'r Pwyllgor Safonau.**

**(c) Anfon llythyr at glercod y cynghorau cymuned a thref yn tynnu sylw at ganllawiau'r Ombwdsmon ac yn amgáu copi o Safon Gwynedd ynghyd â chod enghreifftiol, gan eu hannog i addasu a mabwysiadu'r cod hwnnw at ddibenion eu cynghorau eu hunain.**

**(ch) Bod y Swyddog Monitro yn cysylltu ag Unllais Cymru cyn llythyru gyda'r cynghorau cymuned a thref.**

**(d) Cwyno wrth yr Ombwdsmon bod ei lythyr at Brif Weithredwyr y cynghorau wedi'i anfon yn uniaith Saesneg.**

## 8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Gan gyfeirio at yr achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau, nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith fod y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones wedi apelio yn erbyn y penderfyniad ac felly na fyddai'r penderfyniad hwnnw yn dod i rym hyd oni fyddai'r apêl wedi'i phenderfynu. Yna amlinellodd y dewisiadau oedd yn agored i Banel Dyfarnu Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd y byddai'r gwrandawiad yn agored i'r cyhoedd. Ni chyhoeddwyd dyddiad ar ei gyfer eto, ond byddai'r Swyddog Monitro yn cysylltu ag aelodau'r pwyllgor hwn mewn da bryd.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 9. RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cyflwyno rhaglen waith y pwyllgor am y flwyddyn i ddod er cymeradwyaeth.

Nodwyd ei bod yn bwysig bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n mynd ymlaen yng nghyfarfodydd yr awdurdod ac, yn y cyd-destun hwn, awgrymwyd y byddai'r Pwyllgor Cynllunio yn gyfarfod buddiol i arsylwi arno.

Nododd y Swyddog Monitro fod y ddeddfwriaeth ar Hybu Democratiaeth Leol yn cael ei gyflwyno'r diwrnod hwnnw a'i bod yn mynd i gael effaith ar y gyfundrefn Safonau. Petai'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben cyn Ionawr, byddai'n ymgynghori â'r aelodau drwy e-bost. Fel arall, gellid cynnwys yr eitem ar raglen Ionawr.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cytuno ar y rhaglen waith a ganlyn:-**

**<u>28 Ionawr, 2013</u>**

- **Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru**
- **Adroddiad ar hyfforddiant**
- **Deddfwriaeth ar Hybu Democratiaeth Leol *(yn ddibynnol ar y cyfnod ymgynghori)***
- **Cysylltiadau gyda chynghorau cymuned a thref**

**<u>8 Ebrill, 2013</u>**

- **Adroddiad ar honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru**
- **Rhaglen Waith y flwyddyn i ddod**
- **Adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau**

**<u>Gorffennaf, 2013 (dyddiad i'w bennu</u>)**

- **Adroddiadau ar honiadau yn erbyn aelodau**
- **Cofnodion Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Gogledd Cymru**
- **Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Adborth o'r Gynhadledd Safonau**

**(b) Cynnwys eitem benodol ar y rhaglen waith i drafod yr holl faes cyfryngau cymdeithasol a sut mae cynghorwyr yn gwneud defnydd ohonynt.**

**(c) Bod modd i aelodau'r pwyllgor hwn fynychu unrhyw gyfarfodydd o'r Cyngor fel arsylwyr a'u bod yn derbyn linc ar gyfer pob rhaglen sy'n cael ei chyhoeddi.**

**(c) Anfon rhestr o ddyddiadau a lleoliadau'r Pwyllgor Cynllunio i aelodau'r pwyllgor hwn fel y gallent fod yn bresennol pan fydd y pwyllgor yn cyfarfod yn eu hardal.**

**10. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor adolygu'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch ac yn cyflwyno cyfres o gwestiynau y byddai'n fuddiol i'r aelodau eu hystyried wrth fynd ati i gyflawni'r gwaith.

Nododd y Swyddog Monitro y gwnaed 38 datganiad ers Mai 2008 a rhyw ddau ers cychwyn y tymor presennol o Fai 2012 ymlaen. 'Roedd 25 o'r 38 datganiad wedi'u gwneud gan Arweinydd y Cyngor a'r 13 arall gan aelodau cyffredin. 'Roedd un aelod cyfetholedig a dau aelod etholedig o'r pwyllgor hwn wedi datgan.

Gan gyfeirio at y cwestiynau unigol, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

<u>Cwestiwn (a</u>)

Awgrymwyd nad yw'r Protocol yn cynnig arweiniad ddigon eglur i aelodau ynglŷn â pha bryd y dylid derbyn neu wrthod cynigion. Er enghraifft, os nad yw cynghorydd yn derbyn anfoneb, gall fod yn anodd iddo wybod ai yw hynny oherwydd ei rôl fel cynghorydd ai peidio, a dylid llunio protocol ar gyfer cofrestru sefyllfaoedd o'r fath o fewn 12 mis.

<u>Cwestiwn (b</u>)

Nodwyd bod angen i'r protocol fod yn fwy eglur oherwydd bod tueddiad i bobl feddwl, os yw rhodd yn werth llai na £25, ei bod yn iawn iddynt ei dderbyn.

<u>Cwestiwn (c</u>)

Dim sylw.

<u>Cwestiwn (ch</u>)

Nodwyd bod angen i bobl weld bod yna ddilyniant o gofrestru ac y gallai cynnwys y datganiadau ar wefan y Cyngor fod yn anogaeth i'r gweddill. I'r gwrthwyneb, mynegwyd bod yna berygl mawr yn hynny oherwydd y gallai greu stigma anhaeddiannol.

Nodwyd bod y gyfundrefn yn llwyr ddibynnol ar ymddiriedaeth ac nad oedd modd gwirio os oedd cynghorwyr wedi cofrestru ai peidio.

Awgrymwyd ail ystyried y mater yng nghyfarfod Ionawr gan ystyried sut orau i atgoffa aelodau o'r angen i gofrestru.

Cwestiwn (d)

Awgrymwyd trafod y mater yng nghyfarfod Ionawr gan nad oedd yna esiampl o ffurflen gofrestru gerbron y pwyllgor.

Cwestiwn (dd)

Awgrymwyd gohirio gan ddod â'r adroddiad cyflawn gerbron y pwyllgor ym mis Ionawr.

Cwestiwn (e)

Awgrymwyd gohirio er mwyn cael adroddiad ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Swyddog Monitro gyflwyno adroddiad diwygiedig i'r pwyllgor ym mis Ionawr fydd yn:-**

- **Cynnig awgrymiadau o safbwynt eglurder y Protocol;**
- **Amlygu beth sydd ar gael mewn cynghorau eraill;**
- **Amgáu'r ffurflen gofrestru;**
- **Ystyried y ffordd orau o dynnu sylw aelodau at yr angen i gofrestru, heb ei osod ar y we;**
- **Awgrymu sut i'w gwneud yn gliriach i aelodau nad oes angen iddynt gofrestru gwahoddiadau a dderbynnir yn rhinwedd swydd.**

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2011-2012

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2011-2012.

Nodwyd y byddai'n ddymunol gweld mwy o aelodau o Ogledd Cymru ar y panel.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2011-2012

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2011/12.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.35pm.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **28 Ionawr 2013** |
| **TEITL :** | **Cais am oddefeb gan y Cynghorydd Dyfrig Jones** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y cais** |

**Cefndir**

1. Atodaf, fel **Atodiad**, gopi o ffurflen a dderbyniwyd wrth y Cynghorydd Dyfrig Jones, Cyngor Cymuned Bethesda, yn cyflwyno cais am oddefeb mewn cysylltiad â thrafodaethau ynglŷn â neuaddau pentref yr ardal, gan gynnwys trefniadau ariannu.

2. Mae'r Cynghorydd wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor rheoli un o'r neuaddau hynny. Mae'n bosib y derbynnir ceisiadau gan aelodau eraill o'r cyngor, ac os digwydd hynny, fe'u cyflwynir yn y cyfarfod.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (gweler **Atodiad)**. Mae'r cynghorydd wedi nodi ei fod yn gofyn am y goddefeb o dan baragraff (a), sy'n darparu –

*"os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;"*

4. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad (Medi 2012) yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau (tud.36):

> *"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol. Os bydd methu rhoi goddefeb yn golygu na fydd awdurdod neu bwyllgor yn cyflawni'r cworwm, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb."*

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais y Cynghorydd Dyfrig Jones am oddefeb, ynghyd ac unrhyw gais arall tebyg a dderbynnir.

SH

# Cais am Ollyngiad

Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am ollyngiad, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Mae gan y Pwyllgor Safonau yr hawl i ganiatáu cais os yw'r amgylchiadau'n dod o fewn un o'r paragraffau sydd ar yr Atodiad i'r ffurflen hon.

**1. Enw** ____Dyfrig Jones________________________________ **Cyngor**_Cymuned Bethesda______

**2. Beth yw'r eitem dan sylw?**

___Trafodaeth o neuaddau pentref Gerlan, Rachub a Bethesda_________________________

**3. Beth yw eich buddiant (h.y. eich cysylltiad gyda'r mater)?**

____Aelod o bwyllgor rheoli un o'r neuaddau dan sylw__________________________________

**4. Pam y credwch y dylech gael cymryd rhan yn y drafodaeth?**

______Mae rhagor na hanner aelodau'r Cyngor Cymuned hefyd yn eistedd ar bwyllgorau un o'r bedair neuadd yn ardal y Cyngor Cymuned

**5. Pa baragraff(au) sy'n berthnasol yn eich barn chi? (gweler atodiad)** _____81(4) (a)______________

**6. Ydych chi'n gofyn am ollyngiad i siarad a phledidleisio neu i siarad yn unig?**

____Siarad a phleidleisio______________________________________________________

**7. Ydych chi'n gofyn am ollyngiad ar gyfer cyfarfod penodol (os felly nodwch pa un), neu un cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?**

____Cyffredinol______________________________________________________________

**Arwyddwyd**_______________________________ **Dyddiad** 14/12/12

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Swyddog Priodoldeb:*
*ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

CYNGOR GWYNEDD DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL
18 RHAG 2012
P | rhif tracio ....................

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 7 Ionawr 2013 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | | |
|---|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Howie Roberts (Cadeirydd) | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Conwy |
| | Lynn Ball | Swyddog Monitro – Ynys Môn |
| | David Clay (Yn lle Sam W. Soysa) | Aelod Annibynnol – Pwyllgor Safonau Gwynedd |
| | Trevor Coxon | Swyddog Monitro – Wrecsam |
| | Gwilym Ellis Evans | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Gwynedd |
| | Jane Eyton-Jones | Is-Gadeirydd - Pwyllgor Safonau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Siôn Huws | Swyddog Eiddo - Gwynedd |
| | Iwan Jones | Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Delyth E. Jones | Swyddog Monitro - Conwy |
| | Islwyn Jones | Is-Gadeirydd – Pwyllgor Safonau Ynys Môn |
| | Lisa Jones | Dirprwy Swyddog Monitro – Sir Ddinbych |
| | Pat Jones | Is-Gadeirydd – Pwyllgor Safonau Sir y Fflint |
| | Robyn Jones | Dirprwy Swyddog Monitro – Ynys Môn |
| | Gareth Owens | Swyddog Monitro – Sir y Fflint |
| | Dilys Ann Phillips | Swyddog Monitro - Gwynedd |
| | Parch. Wayne Roberts | Is-Gadeirydd – Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych |
| | Peter Rowland | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Ian Trigger | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych |
| | Gary Williams | Swyddog Monitro – Sir Ddinbych |
| | Michael B. Wilson | Cadeirydd – Pwyllgor Safonau Ynys Môn |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Sian Harland | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor |

57. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gary Williams (Sir Ddinbych), Ceri Nash (Wrecsam), Sam Soysa (Gwynedd), Ceri Williams (Conwy), Rob Dawson (Wrecsam) a Sioned Wyn Davies (Wrecsam).

58. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2012 i'w cymeradwyo.

Dywedodd Gwilym Ellis Evans (Gwynedd) ei fod yn bresennol a bod Sam Soysa yn cynrychioli Gwynedd ac nid Wrecsam.

**PENDERFYNWYD-**

**Dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2012, fel cofnod cywir, yn amodol ar wneud y newidiadau uchod.**

59. **CYNGOR LLYWODRAETHU A MOESOL I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Clywodd Aelodau fod yr eitem wedi ei chynnwys ar y rhaglen er mwyn trafod pa ddarpariaeth oedd gan bob Awdurdod Lleol o safbwynt Cyngor Llywodraethu a Moesol i Gynghorau Tref a Chymuned, a sut y cyfathrebwyd ac y symbylwyd hyn.

Clywodd y fforwm hefyd y byddai'r testun yn cael ei drafod yng Nghynhadledd Safonau 2013.

<u>Wrecsam</u>

- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi yn ddiweddar yn ganolog ac mewn ardaloedd eraill o'r Fwrdeistref Sirol.
- Roedd yr hyfforddiant yn dilyn yr un fframwaith â'r arweiniad a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol
- Defnyddiwyd esiamplau yn seiliedig ar achosion yr Ombwdsmon yn yr hyfforddiant
- Roeddent yn dal i dderbyn ymholiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned, ond roedd hyn yn well na gorfod delio gydag ymchwiliad
- Roedd lefel presenoldeb o 40-50%
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol gyda Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned, ond nid oedd lefel presenoldeb yn uchel
- Roedd gwybodaeth y clercod mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn amrywio

<u>Sir Ddinbych</u>

- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol gyda Chlercod a Chynghorau Tref a Chymuned
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer clercod
- Cynhaliwyd sioe deithiol hyfforddi gyda sesiynau hyfforddi ledled y Sir
- Roedd cyfradd presenoldeb o 30% yn y cyfarfodydd
- Derbyniwyd yr holl hyfforddiant mewn modd positif
- Roedd yn bwysig fod cysylltiadau cyfathrebu'n parhau ar agor rhwng y Sir a Chynghorau Tref a Chymuned

<u>Ynys Môn</u>

- Ychydig iawn o gwynion mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad oedd yn deillio o'r Cynghorau Tref a Chymuned
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi canolog gyda Chlercod a Chadeiryddion y Cynghorau Tref a Chymuned, gyda dealltwriaeth y byddai'r Clercod yn trosglwyddo'r hyfforddiant yn ei flaen i Gynghorwyr

60. **CYFARWYDDYD DIWYGIEDIG YR OMBWDSMON YNGLŶN Â'R COD YMDDYGIAD**

Yn dilyn y cais yn y cyfarfod diwethaf darparodd y Swyddog Monitro (Gwynedd), sydd hefyd yn Gadeirydd ACSeS Cymru, y wybodaeth ddiweddaraf a ganlyn:-

- Roedd canllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon yn dod yn sgil achos Calver v Panel Dyfarnu Cymru yn yr Uchel Lys, a oedd wedi dyfarnu bod y Cynghorydd dan sylw wedi bod yn defnyddio ei Ryddid Mynegiant dan y Ddeddf Iawnderau Dynol ac felly nad oedd wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad gan fod y sylwadau yn rhai o natur wleidyddol
- Roedd Aelodau o'r Fforwm a Swyddogion Monitro'n bryderus fod y trothwy ar gyfer y canllawiau diwygiedig wedi'i osod yn rhy uchel, a gallai roi gormod o ryddid i Gynghorwyr
- Wedi i'r pryderon uchod gael eu cyflwyno i'r Ombwdsmon, roedd wedi cytuno adolygu'r canllawiau diwygiedig i gynghori Cynghorwyr ynglŷn â'r hyn nad oedd yn ymddygiad derbyniol, yn hytrach na'r oedd yn ymddygiad derbyniol.
- Roedd Swyddogion Monitro wedi derbyn copi drafft o'r canllawiau diwygiedig, ond roeddynt yn pryderu nad oedd hyn yn mynd ddigon pell o safbwynt ymddygiad annerbyniol
- Fel modd o fwrw ymlaen, roedd is-grŵp o aelodau ACSeS ar hyn o bryd yn llunio ffurf o eiriau ar gyfer y canllawiau, y gallent eu trafod gyda'r Ombwdsmon ym mis Mawrth 2013
- Gobeithiwyd y byddai'r canllawiau diwygiedig mewn grym erbyn mis Ebrill 2013

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r canlynol:-

- Clywodd Aelodau na fyddai'n newid y trothwy o ran pryd y byddai'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn
- Penderfyniad i Gynghorau unigol fyddai mabwysiadu protocol ar gyfer Datrysiad Lleol mewn perthynas â chwynion, na fyddai'n cael eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon
- Nodwyd na fyddai'r Ombwdsmon yn bwrw ymlaen ag apêl mewn perthynas ag achos Calver

**CYTUNWYD -**

**Nodi'r wybodaeth mewn perthynas â chanllawiau diwygiedig yr Ombwdsmon**

61. **CYNHADLEDD SAFONAU 2013**

Cyflwynwyd rhaglen ddrafft ar gyfer Cynhadledd Safonau 2013 i'r Fforwm.

Hysbyswyd Aelodau ynglŷn â'r newidiadau a ganlyn:-

- Y Swyddog Monitro (Gwynedd), fel Cadeirydd ACSeS, fyddai'n agor y Gynhadledd
- Byddai lle i 30 i fod yn bresennol
- Er mwyn galluogi'r rhai a oedd yn bresennol i fynd i sesiynau, cytunwyd y byddai'r 2 sesiwn yn y bore ar berthnasau Cynghorau

Tref a Chymuned a Hyrwyddo Safonau yn Rhagweithiol yn cael eu hailadrodd yn y prynhawn

- Byddai'r sesiynau Cynnal Gwrandawiadau a Chosbau'n cael eu hwyluso gan Sir Ddinbych a Chonwy
- Sir y Fflint ac Ynys Môn fyddai'n hwyluso'r sesiwn ar y Gofrestr Buddiannau
- Parc cenedlaethol Eryri fyddai'n hwyluso mewn perthynas â materion ar gyfer Awdurdodau Un Pwrpas

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r canlynol:-

- Er mai dim ond sesiynau penodol fyddai'n cael eu hwyluso'n ddwyieithog, gallai pawb a oedd yn bresennol gyfrannu naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg
- Roedd Ynys Môn wedi gwneud cais, yn dilyn beirniadaeth Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o'u Pwyllgor Safonau, y dylid gwahodd cynrychiolydd o SAC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gymryd rhan yn y sesiwn; Hyrwyddo Safonau yn Rhagweithiol
- O safbwynt presenoldeb Aelodau Cynulliad Cenedlaethol yn y Gynhadledd, awgrymwyd y dylid, gan fod lle yn gyfyngedig, gwahodd y Gweinidog ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau i fod yn bresennol fel arsylwr
- Awgrymwyd gan mai Conwy oedd yn cynnal y digwyddiad, y dylid gwahodd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Conwy i gyflwyno'r sylwadau i gloi

**CYTUNWYD -**

**(a) Dylid cymeradwyo'r rhaglen ar gyfer Cynhadledd Safonau 2013, yn amodol ar wneud unrhyw newidiadau pellach rhesymol a oedd eu hangen gan Swyddogion Monitro Gogledd Cymru.**

**(b) Dylai Cadeirydd Pwyllgor Safonau Conwy roi'r sylwadau i gloi.**

**(c) Dylid gwahodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Carl Sergeant AC, i fod yn bresennol yn y gynhadledd fel arsylwr.**

**(d) Dylid gwahodd Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i anfon cynrychiolydd i gymryd rhan yn y Gweithdy Hyrwyddo Safonau yn Rhagweithiol.**

62. **UNRHYW EITEM ARALL**

Dim.

(Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **28, IONAWR, 2013.** |
| **TEITL** | **CYNHADLEDD SAFONAU 2013** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Cynhelir y Gynhadledd Safonau yn Llandudno ar Ebrill 19 dan nawdd Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

2. Atodaf y Rhaglen sydd wedi ei chytuno gan y Fforwm.

3. Yn ogystal â'r Swyddog Monitro mae lle i'r Pwyllgor anfon pedwar cynrychiolydd (yn aelod neu swyddog).

4. Yn y gorffennol rhoddodd y Pwyllgor flaenoriaeth i'r rhai nad oedd wedi mynychu'r gynhadledd o'r blaen.

5. Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu eu cynrychiolwyr ynghyd â blaenoriaethu rhestr wrth gefn os oes rhagor yn dymuno mynychu'r gynhadledd.

# CYNHADLEDD SAFONAU 2013

## Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| 10.00 – 10.30 | Cofrestru a Tê/Coffi |
| 10.30 – 10.45 | Croeso a chyflwyno – Dilys Phillips. Cadeirydd ACSeS |
| 10.45 – 11.30 | Sesiwn lawn 1 – Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| 11.30 – 11.45 | Tê/Coffi |
| 11.45 – 12.45 | Sesiwn Gweithdy 1:<br>1A. Hyrwyddo safonau yn rhagweithiol - Gwynedd<br>1B. Cynnal gwrandawiadau a chosbau –Dinbych a Conwy<br>1C. Cofrestru buddiannau a gollyngiadau – Ynys Môn a Fflint |
| 12.45 – 13.45 | Cinio. |
| 13.45 – 14.30 | Sesiwn lawn 2 – Trefn Datrys Leol<br>Daniel Hurford, CLlLC<br>Dilys Phillips, Gwynedd<br>Rod Jones, Abertawe |
| 14.30 – 14.45 | Tê/Coffi |
| 14.45 – 15.45 | Sesiwn Gweithdy 2:<br>2A. Hyrwyddo safonau yn rhagweithiol - Gwynedd<br>2B. Cynnal gwrandawiadau a chosbau –Dinbych a Conwy<br>2C. Safonau i gynghorau tref a chymuned ac awdurdodau pwrpas sengl - Wrexham a Pharc Cenedlaethol Eryri |
| 15.45 – 16.00 | Sylwadau i gloi – Howie Roberts,<br>Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **28 Ionawr 2013** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

**2. Penderfyniadau**

**Achos 201203256**

Cwyn yn erbyn aelod o gyngor cymuned/tref, gan gyd-aelod, nad oedd wedi datgelu buddiant pan ystyriwyd cais cynllunio. Roedd y cynghorydd wedi gweithio yn yr eiddo am gyfnod yn y gorffennol, ac yn ddiweddar wedi tendro yn aflwyddiannus am waith gyda'r ymgeiswyr. Hefyd, dyfynnwyd yr aelod yn y papur lleol yn mynegi pryderon cyffredinol am sefyllfa gynllunio'r safle.

<u>Penderfyniad</u> – Peidio ymchwilio. Nid oedd tystiolaeth fod cysylltiad personol agos rhyngddo a'r ymgeiswyr, felly nId oedd buddiant personol yn bodoli.

**3. Achosion heb benderfyniad**

**Achosion 201203449 & 201203493**

Cwyn bod cynghorydd sir wedi defnyddio ei dudalen Facebook i geisio sylwadau negyddol gan y cyhoedd a bod rhai o'r sylwadau hynny yn sarhaus a di-sail.

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

**4. Achos fu gerbron y Pwyllgor Safonau**

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad mewn cysylltiad â'r gwyn yn erbyn y Cyng. A.M. Jones, Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2012. Mae'r Cynghorydd wedi apelio i Banel dyfarnu Cymru a disgwylir dyddiad ar gyfer y gwrandawiad.

**5. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **28, IONAWR, 2013.** |
| **TEITL** | **HYFFORDDIANT.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Yn dilyn etholiadau mis Mai 2012, cynigiwyd sesiwn awr a hanner o hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i aelodau fel rhan o'r drefn gyflwyno. Mynychodd 64 aelod, gan gynnwys pob un ond 3 o'r aelodau newydd. Roedd y sesiwn yn seiliedig ar y deunydd a ddarparwyd ar y cyd rhwng Swyddogion Monitro Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau.

2. Mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned, roedd cytundeb gydag Unllais Cymru y byddent yn cyflwyno hyfforddiant yn seiliedig ar y deunyddiau a ddarparwyd ar y cyd gyda'r swyddogion monitro, ac fe wnaed hyn mewn dau leoliad yng Ngwynedd. Mae'r rhaglen ar gyfer 2013 yn cynnwys tair sesiwn arall, un yn Bermo ar y 13, Mawrth, un ym Mhwllheli ar y 14, Mai ac un yng Nghaernarfon ar y 27, Mehefin.

3. Serch hyn, ychydig yw'r nifer sydd yn mynychu y sesiynau ac awgrymwyd efallai y byddai'n fwy buddiol cynnig yr hyfforddiant i'r clercod. Rwyf wedi cysylltu gyda Chymdeithas Clercod Cynghorau Tref a Chymuned i drafod y cynnig hwn.

4. Cafodd y Pwyllgor hwn gyflwyniad byr i'w waith yn ei gyfarfod cyntaf yng Ngorffennaf 2012, ond nid oes hyfforddiant manwl wedi ei gyflwyno, yn arbennig i aelodau newydd y pwyllgor.

5. Ystyrir bod yr opsiynau canlynol ar gael.

   (a) Cynnig sesiwn adnewyddu, dyweder unwaith y flwyddyn i aelodau'r Cyngor Sir.

   (b) Cynnig sesiynau penodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref a Chymuned.

   (c) Cynnig sesiwn wedi ei theilwrio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau.

   (ch) Cynnig cyfres o sesiynau ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.

   (d) Cynnig sesiynau cynghori anffurfiol yn achlysurol mewn gwahanol ardaloedd ar gyfer pa bynnag gynulleidfa sydd yn dymuno mynychu.

6. **YSTYRIAETHAU.**

Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi naill a'i wedi eu cynnal neu ar gynnig yn barod. Yn draddodiadol gall brofi yn anodd denu cynulleidfa i hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad ac mae tueddiad gan y Cynghorwyr Sir i ddod i holi'r swyddogion perthnasol pan fo ganddynt gwestiwn. Er hynny, mae y cynnig o hyfforddiant yn un o'r materion mae'r Ombwdsmon yn eu hystyried bob tro mae'n ymchwilio i gŵyn yn ymwneud a'r Côd Ymddygiad ac mae disgwyliad fod hyfforddiant ar gael.

7. **ARGYMHELLIAD.**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y materion uchod a rhoi arweiniad ar greu rhaglen hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **28, IONAWR, 2013.** |
| **TEITL** | **BIL LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) CYMRU** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Mae'r Bil yma gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd ac mae'n cynnwys nifer o faterion yn ymwneud â deddfwriaeth llywodraeth leol. Mae un cymal ynddo (Cymal 63) yn ymwneud â sefydlu cydbwyllgorau safonau.

2. Atodaf y rhan o'r Esboniad sydd yn egluro'r hyn a fwriedir mewn perthynas â phwyllgorau safonau, ac fe welir ym mharagraff 58 resymeg Llywodraeth Cymru dros gyflwyno'r cymal hwn yn y mesur.

3. Ymddengys o'r geiriad mai pŵer i sefydlu cydbwyllgor safonau fyddai hwn ac nid gorfodaeth, ond bod angen ei weithredu yn unol â chanllawiau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae'r Bil allan i ymgynghoriaeth ar hyn o bryd ac mae cyfle i'r Pwyllgor Safonau roi eu barn ar y cynnig.

5. Rhai o'r materion efallai yr hoffai y pwyllgor eu hystyried ydi :-

   (a) Pa mor hawdd ydi denu aelodau i wasanaethu ar bwyllgorau safonau
   (b) Faint o waith sydd i bwyllgor er mwyn cynnal arbenigedd?
   (c) Pa mor bwysig ydi hi fod y pwyllgor ynghlwm ag un awdurdod yn unig ac felly yn cadw'r penderfyniadau yn lleol?
   (ch) A oes gwahaniaethau rhwng gwahanol awdurdodau fyddai'n ei gwneud yn anymarferol i gael un pwyllgor.
   (d) Unrhyw faterion daearyddol neu ieithyddol allasai effeithio ar weithrediad y cydbwyllgor.

6. **<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

   Gofynnir i'r pwyllgor a ydynt yn dymuno mynegi barn ac ymateb i'r ymgynghoriad.

## Pwyllgorau Safonau

54 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (“Deddf 2000”) a sefydlodd y fframwaith moesegol presennol sy’n hyrwyddo cadw at safonau ymddygiad cyson ymhlith aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Mae’n gosod dyletswydd ar bob awdurdod perthnasol (at y diben hwn cyngor sir/bwrdeistref sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân ac Achub ac Awdurdod yr Heddlu) i sefydlu pwyllgor safonau.

55 Dyma swyddogaethau cyffredinol pwyllgorau safonau:

- Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod;
- Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod.

56 Heb ragfarnu ei swyddogaethau cyffredinol, mae gan bwyllgor safonau y swyddogaethau penodol canlynol:

- Cynghori’r awdurdod ynghylch mabwysiadu neu ddiwygio cod ymddygiad;
- Monitro’r modd y gweithredir cod ymddygiad yr awdurdod;
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod ar faterion yn ymwneud â chod ymddygiad yr awdurdod.

57 Pwyllgor safonau’r cyngor sir/bwrdeistref sirol sy’n arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas â’r cynghorau cymuned a thref o fewn ei ardal.

58 Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y byddai’n fuddiol i’r awdurdodau perthnasol yng Nghymru gydweithio drwy sefydlu cydbwyllgorau safonau yn seiliedig ar ‘Batrwm Cydweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus’. Dyma rai o’r manteision hynny:

- Helpu i oresgyn y problemau a welwyd mewn rhai ardaloedd o ran canfod pobl annibynnol addas i wasanaethu ar bwyllgorau safonau;
- Defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ac effeithiol a chynnig hyblygrwydd wrth ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio â’r cod ymddygiad;
- Osgoi achosion posibl o wrthdaro buddiannau a gwella hyder y cyhoedd yn y broses gwynion drwy greu pellter rhwng y pwyllgorau a’r achwynwyr / y rhai sy’n destun cwynion;
- Hwyluso dull cyson o ymateb i gwynion ledled Cymru, yn enwedig lle cymerir camau drwy brosesau datrys lleol;
- Hwyluso’r broses o rannu arferion da wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel.

59 Mae’r Bil yn diwygio Rhan III o Ddeddf 2000 i’w gwneud yn haws i awdurdodau lleol sefydlu cydbwyllgorau safonau at ddibenion cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf honno.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **28, IONAWR, 2013** |
| **TEITL** | **PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU** |
| **PWRPAS** | **ADOLYGU'R PROTOCOL** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

Atodaf y dogfennau canlynol :

1. Yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor ar 27, Tachwedd, 2012.

2. Protocol Rhoddion a Lletygarwch cyfredol.

3. Ffurflen Gofrestru Rhoddion a Lletygarwch

4. Drafft o Brotocol diwygiedig.

Yn ei gyfarfod ar y 27ain o Dachwedd, penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r ystyriaeth o'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch gan ofyn am ymchwil i'r hyn sydd ar gael mewn cynghorau eraill ac awgrymiadau am brotocol diwygiedig.

O'r gwaith ymchwil a wnaed ymddengys mai ychydig o gynghorau sydd gyda phrotocol neu ganllawiau ffurfiol ar roddion a lletygarwch. O'r rhai sydd gyda phrotocol maent yn tueddu i ddilyn yr un patrwm gydag egwyddorion yn cael eu nodi ynddynt gydag enghreifftiau o'r fath o roddion neu letygarwch na ellir ei dderbyn ac enghreifftiau o'r mathau o roddon a lletygarwch y gellir ei dderbyn

Rwyf wedi diwygio peth ar y Protocol (Atodiad 4) yng ngoleuni y gwaith ymchwil hwn. Rwyf wedi cynnwys gofynion y Côd Ymddygiad ym mharagraff 2 ac wedi gosod egwyddorion cyffredinol ym mharagraff 3.

Gofynnwyd i mi edrych ar wahoddiadau a dderbynnir yn rhinwedd swydd aelod, e.e. gwahoddiadau dinesig.

Mae'r Protocolau eraill yn rhestru'r canlynol fel rhoddion a lletygarwch y gellir eu derbyn.

(a) Lletygarwch Dinesig gan awdurdod cyhoeddus arall.
(b) Lluniaeth ysgafn mewn perthynas â chyfarfod, e.e. te, coffi, bisgedi.
(c) Lletygarwch a dderbynnir yng nghyd-destun ymweliad neu gyfarfod allanol sydd wedi ei awdurdodi gan y Cyngor.

Gofynnir i'r Pwyllgor a ydynt yn fodlon fod y math hwn o letygarwch yn dderbyniol.

Mae'r diffiniad o rodd wedi ei newid er mwyn cyfarch sefyllfaoedd lle y cyflawnir gwaith neu nwyddau ond nad oes anfoneb yn cael eu cyflwyno.

Gofynnir hefyd am farn y Pwyllgor ar wrthod rhoddion. Mae'r protocol presennol yn awgrymu y dylid gwrthod rhodd. Gall hyn fod yn anodd iawn lle mae etholwr, dyweder, yn cyflwyno rhodd fel cydnabyddiaeth i gynghorydd. Y dewis arall fyddai cynnwys yn y protocol cymal sydd yn nodi os nad yw yn ymarferol i ddychwelyd y rhodd, y dylid ei gyflwyno i elusen, e.e. ar gyfer raffl.

Gofynnwyd i mi ystyried sut i roi cyhoeddusrwydd i'r protocol a'r gofrestr ond heb fynd cyn belled a gosod y gofrestr ar y we. Dylid nodi fod y gofrestr yn gyhoeddus ac y byddai yn cael ei datgelu pe byddai rhywun yn gwneud cais amdani.

Mae'n anodd gwybod faint o roddion neu gynigion o letygarwch sydd yn cael eu rhoi i gynghorwyr. Ar yr un pryd mae yn anodd bod yn sicr bod pob cynghorydd yn llwyr ymwybodol o pa bryd mae angen cofrestru rhodd neu letygarwch. Mae'r Côd Ymddygiad yn nodi mai dim ond y rhoddion neu letygarwch sydd yn werth mwy na £25 sydd angen eu cofrestru, ac fe allai hyn fod yn gyfrifol am y nifer isel o gofrestriadau.

Os yw'r pwyllgor yn awgrymu newidiadau i'r protocol, bydd angen iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn a bydd cyfle i'w dynnu i sylw yr holl aelodau. Gellir hefyd ystyried gwneud archwiliad achlysurol neu anfon ffurflen gofrestru i bob aelod, dyweder, unwaith y flwyddyn. Mae ambell gyngor yn gweithredu trefn o gyflwyno'r gofrestr i sylw'r Pwyllgor Safonau yn achlysurol er mwyn ei chadw dan adolygiad.

**ARGYMHELLIAD**.

(a) Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y protocol diwygiedig.

(b) Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y dull o ddod ar protocol i sylw'r cynghorwyr.

(c) Gofynnir am farn y Pwyllgor ar y ffurflen.

**ATODIAD 4.**

**PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH - AELODAU**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Dylech drin unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch a wneir i chi'n bersonol gyda'r gofal mwyaf. Rydych yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad i dderbyn rhodd neu letygarwch, a gall eich enw da ac enw da'r Cyngor gael ei beryglu wrth i chi dderbyn rhodd neu letygarwch amhriodol.

1.2 Nid yw'n bosib llunio rheolau pendant a fydd yn addas ar gyfer pob achlysur ond mae'r protocol yma yn cynnig canllawiau i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad.

**2. Y Gyfraith**

2.1 Mae derbyn llwgr wobr yn drosedd. Os profir eich bod wedi derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais gan rywun sy'n ceisio contract gyda'r Cyngor byddai'n rhaid i chi (a'r sawl wnaeth y cynnig) brofi nad ydych wedi ymddwyn yn anonest.

2.2. Mae'r Côd Ymddygiad aelodau yn dweud ..... "Rhaid i chi osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny."

"Rhaid i chi beidio â defnyddio neu geisio defnyddio yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais yn eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall."

"Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael cynnig unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef ai peidio."

**3. Egwyddorion.**

3.1 <u>Rhwymedigaeth amhriodol</u> – Ni ddylid byth dderbyn rhodd neu letygarwch fel gwobr neu anogaeth i weithredu mewn ffordd arbennig fel cynghorydd na fel modd o brynu dylanwad.

3.2 Budd i'r Cyngor – Dylid ond derbyn rhodd neu letygarwch os daw budd i'r Cyngor o wneud hynny. Dylai'r budd fod cymesur â'r rhodd.

3.3 Camddehongli – Ni ddylid derbyn rhodd neu letygarwch pe byddai gwneud hynny yn gadael y Cyngor neu'r aelod yn agored i gyhuddiad o gamymddwyn. Nid yn unig mae'n rhaid ymddwyn yn briodol, mae'n rhaid i aelodau hefyd gael eu gweld yn ymddwyn yn briodol.

3.4 Deisyfu rhodd neu letygarwch – Ni ddylid byth ofyn am neu wahodd rhodd neu letygarwch mewn cyswllt a rôl aelod fel cynghorydd.

**4. Rhoddion**

4.1 Mae "rhodd" yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau am ddim, y siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau gyda gostyngiad neu ar dermau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, neu siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd. Dylid bod yn wyliadwrus o sefyllfaoedd lle archebir gwaith neu nwyddau ond nad oes anfoneb yn cael ei chyflwyno.

4.2 Cewch dderbyn rhoddion dinesig ar ran y Cyngor. Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i'r fath roddion ac nid oes rhaid eu cofrestru 'chwaith.

4.3 Ni ddylech dderbyn rhoddion personol, sy'n berthnasol i'ch safle fel aelod neu'n codi ohono, gan unrhyw un. Serch hynny, mae'n iawn i chi gadw rhoddion bychan a dinod megis beiros, dyddiaduron a.y.b. Hefyd gallwch dderbyn gwobrau raffl.

4.4 Dylech wrthod unrhyw rodd a gynigir i chwi, neu i aelod o'ch teulu agos, gan unrhyw berson neu gorff sydd yn gwneud, neu sydd yn dymuno gwneud, busnes gyda'r Cyngor neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

4.5 Wrth wrthod rhodd dylid dweud yn gwrtais ond yn gadarn wrth y cynigydd pa weithdrefnau a safonau sy'n weithredol o fewn y Cyngor. Os anfonir rhodd o'r fath :

- rhaid ei dychwelyd yn syth i'r anfonwr gydag eglurhad.
- dylid cofrestru derbyn a dychwelyd y rhodd os yw yn werth dros £25.
- lle bo cynigydd yn mynnu eich bod yn derbyn rhodd, rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor ynglŷn â'r modd i weithredu?

**5. Lletygarwch**

5.1 Ni ddylech dderbyn lletygarwch gan berson neu gorff sydd yn, neu'n sy'n dymuno, gwneud busnes gyda'r Cyngor, neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

5.2 Ni ddylech dderbyn cynigion o letygarwch oni bai fod gwir angen i gyfrannu gwybodaeth neu gynrychioli'r Cyngor yn y gymuned.

5.3 Dylech osgoi lletygarwch mewn sefyllfaoedd lle mai chi fydd yr unig westai.

5.4 Ni ddylech dderbyn cynigion i fynychu achlysuron cymdeithasol neu chwaraeon oni bai eu bod yn rhan o fywyd y gymuned neu fod disgwyl i'r Cyngor gael ei gynrychioli yno.

5.6 Lle bydd angen ymweliadau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, dylech sicrhau bod y Cyngor yn ariannu'r ymweliadau hynny er mwyn diogelu tegwch y penderfyniadau sydd yn deillio ohonynt.

5.7 Bydd yn dderbyniol i chi dderbyn lletygarwch trwy fod yn bresennol mewn cynadleddau a chyrsiau perthnasol lle bydd yn amlwg mai corfforaethol ac nid personol yw'r lletygarwch, lle bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd ymlaen llaw a lle sicrheir y Cyngor na chyfaddawdir unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor.

5.8 Medrwch dderbyn lluniaeth arferol mewn cysylltiad â'ch gwaith fel aelod (te, coffi, bisgedi a.y.b).

6. **Cofrestru**

6.1 O dan Gôd Ymddygiad y Cyngor mae'n rhaid i chi gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch a gewch sy'n werth dros £25. Hefyd dylech gofrestru unrhyw gynnig yr ydych yn ei wrthod ac sy'n werth dros £25.

6.2 Cedwir y gofrestr rhoddion a lletygarwch gan y Swyddog Monitro a dylid ei hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir sy'n werth dros £25. Bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

6.3 Rhaid cofio mai ffigwr ar gyfer cofrestru yw £25 ac nid yw'n golygu'n angenrheidiol y medrwch dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n werth llai na hynny. Rhaid i chi ystyried yn ofalus bob cynnig <u>beth bynnag fo'i werth</u>.

**7. Swyddog Monitro**

7.1 Os oes gennych amheuaeth ynglŷn ag unrhyw gynnig, dylech ofyn am gyngor y Swyddog Monitro.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **27, TACHWEDD, 2012** |
| **TEITL** | **PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU** |
| **PWRPAS** | **ADOLYGU'R PROTOCOL** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Atodaf i'r adroddiad hwn gopi o'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer aelodau'r Cyngor. Mabwysiadwyd y Protocol hwn gan y Cyngor ym Mehefin 2004. Mae'r Protocol yn ymdrech i gyflwyno arweiniad i aelodau ynglŷn â pha roddion a lletygarwch y gellir eu derbyn a pha rai y dylid eu cofrestru.

2. Mae'r Côd Ymddygiad i aelodau yn dweud ...."*Rhaid i chi o fewn 28 diwrnod ar ôl i chi gael cynnig unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef ai peidio.*"

3. Y Pwyllgor Safonau wnaeth argymell y trothwy o £25 pan gafodd y Côd ei fabwysiadu yn 2008 a'r Pwyllgor Safonau hefyd a gynigiodd y dylid cofrestru unrhyw gynnig sydd yn cael ei wrthod yn ogystal â'r rhai sydd yn cael eu derbyn.

4. Yn ei ganllawiau ar y Côd, mae'r Ombwdsmon yn cynnig yr arweiniad canlynol ar roddion a lletygarwch.

   (a) Y gall derbyn rhodd neu letygarwch greu buddiant personol i aelod y dylid wedyn ei ddatgan os oes pwyllgor yn ystyried mater sy'n effeithio ar yr unigolyn a roddodd y rhodd neu lletygarwch.

   (b) Y dylai'r aelod gwestiynu'r cymhelliant dros y rhodd neu'r lletygarwch er mwyn penderfynu os yw wedi ei gynnig iddo/i yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd.

   (c) Y dylid cofrestru unrhyw rodd neu letygarwch y mae yr aelod yn ansicr o'i werth neu sydd yn gyfres o roddion a fyddai gyda'i gilydd yn cyrraedd y trothwy o £25.

5. Mae'r paragraff yn y Côd Ymddygiad yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned yn yr un modd ag i'r Cyngor Sir, ac mae canllawiau'r Ombwdsmon ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn cynnwys yr un arweiniad. Nid yw'r protocol a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd yn 2008 wedi ei ddosbarthu i'r cynghorau tref a chymuned.

6. Gofynnir i aelodau'r Cyngor Sir gofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch sy'n werth mwy na £25 drwy gwblhau ffurflen a'i hanfon i'r Swyddog Monitro. Atodaf gopi o'r ffurflen. Serch hyn byddaf yn derbyn rhai datganiadau o roddion a lletygarwch ar e-bost.

7. Atodaf i'r adroddiad grynodeb o'r holl gynigion sydd wedi eu cofrestru ers Mai 2008. Fe welir nad yw yn restr helaeth iawn. Mae'n werth nodi hefyd mai 10 aelod o'r Cyngor sydd wedi cofrestru rhoddion neu letygarwch.

8. Wrth fynd ati i adolygu'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch, efallai y byddai o fudd i'r pwyllgor ystyried y materion canlynol :-

   (a) A ydi'r Protocol yn cynnig arweiniad ddigon eglur i aelodau ynglŷn â pha bryd y dylid derbyn neu wrthod cynigion? A oes modd cael canllawiau sydd yn ceisio rhestru enghreifftiau o sefyllfaoedd, ynteu a fyddai'n well gosod meini prawf neu gwestiynau y dylai pob cynghorydd eu gofyn cyn dod i benderfyniad ar rodd neu letygarwch?

   (b) A oes dryswch yn cael ei greu wrth osod trothwy ariannol ar gyfer cofrestru sydd ddim yn berthnasol i ba un a yw'r rhodd neu letygarwch yn cael ei dderbyn a'i peidio?

   (c) A yw'r trothwy o £25 yn parhau yn addas.

   (ch) Ar ba ffurf ddylai'r gofrestr gael ei chadw, a sut ddylai aelodau gofrestru rhoddion neu letygarwch?

   (d) A oes angen unrhyw newidiadau i'r ffurflen gofrestru?

   (dd) A ddylid newid y protocol i gyfeirio at ganllawiau yr Ombwdsmon?

   (e) Beth ddylid ei wneud mewn perthynas â chael cofrestr o roddion a lletygarwch i gynghorau tref a chymuned?

9. Wrth adolygu'r Protocol hwn, mae'n bosib y bydd y pwyllgor yn teimlo y dylai gomisiynu rhagor o waith ymchwil neu archwiliad er mwyn casglu tystiolaeth fwy manwl i'w gynorthwyo. Gofynnir felly am farn y pwyllgor a yw hwn yn faes y mae'n dymuno ei adolygu mewn dyfnder ac am ei sylwadau cychwynnol ar y Protocol.

**PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH - AELODAU**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Dylech drin unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch a wneir i chi'n bersonol gyda'r gofal mwyaf. Rydych yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad i dderbyn rhodd neu letygarwch, a gall eich enw da ac enw da'r Cyngor gael ei beryglu wrth i chi dderbyn rhodd neu letygarwch amhriodol.

1.2 Nid yw'n bosib llunio rheolau pendant a fydd yn addas ar gyfer pob achlysur ond mae'r protocol yma yn cynnig canllawiau i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad.

**2. Y Gyfraith**

2.1 Mae derbyn llwgr wobr yn drosedd. Os profir eich bod wedi derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais gan rywun sy'n ceisio contract gyda'r Cyngor byddai'n rhaid i chi (a'r sawl wnaeth y cynnig) brofi nad ydych wedi ymddwyn yn anonest.

**3. Cofrestru**

3.1 O dan Gôd Ymddygiad y Cyngor mae'n rhaid i chi gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch a gewch sy'n werth dros £25. Hefyd dylech gofrestru unrhyw gynnig yr ydych yn ei wrthod ac sy'n werth dros £25.

3.2 Cedwir y gofrestr rhoddion a lletygarwch gan y Swyddog Monitro a dylid ei hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir sy'n werth dros £25. Bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

3.3 Rhaid cofio mai ffigwr ar gyfer cofrestru yw £25 ac nid yw'n golygu'n angenrheidiol y medrwch dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n werth llai na hynny. Rhaid i chi ystyried yn ofalus bob cynnig beth bynnag fo'i werth.

**4. Rhoddion**

4.1 Mae "rhodd" yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau am ddim, y siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau gyda gostyngiad neu ar dermau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, neu siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd.

4.2 Cewch dderbyn rhoddion dinesig ar ran y Cyngor. Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i'r fath roddion ac nid oes rhaid eu cofrestru 'chwaith.

4.3 Ni ddylech dderbyn rhoddion personol, sy'n berthnasol i'ch safle fel aelod neu'n côdi ohono, gan unrhyw un. Serch hynny, mae'n iawn i chi gadw rhoddion bychan a dinod megis beiros, dyddiaduron a.y.b. Hefyd gallwch dderbyn gwobrau raffl.

4.4 Dylech wrthod unrhyw rodd a gynigir i chwi, neu i aelod o'ch teulu agos, gan unrhyw berson neu gorff sydd yn gwneud, neu sydd yn dymuno gwneud, busnes gyda'r Cyngor neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

4.5 Wrth wrthod rhodd dylid dweud yn gwrtais ond yn gadarn wrth y cynigydd pa weithdrefnau a safonau sy’n weithredol o fewn y Cyngor. Os anfonir rhodd o’r fath :

- rhaid ei dychwelyd yn syth i’r anfonwr gydag eglurhad.
- dylid cofrestru derbyn a dychwelyd y rhodd os yw yn werth dros £25.
- lle bo cynigydd yn mynnu eich bod yn derbyn rhodd, rhaid i chi gysylltu â’r Swyddog Monitro am gyngor ynglŷn â’r modd i weithredu.

**5. Lletygarwch**

5.1 Ni ddylech dderbyn lletygarwch gan berson neu gorff sydd yn, neu’n sy’n dymuno, gwneud busnes gyda’r Cyngor, neu sy’n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

5.2 Ni ddylech dderbyn cynigion o letygarwch oni bai fod gwir angen i gyfrannu gwybodaeth neu gynrychioli’r Cyngor yn y gymuned.

5.3 Dylech osgoi lletygarwch mewn sefyllfaoedd lle mai chi fydd yr unig westai.

5.4 Ni ddylech dderbyn cynigion i fynychu achlysuron cymdeithasol neu chwaraeon oni bai eu bod yn rhan o fywyd y gymuned neu fod disgwyl i’r Cyngor gael ei gynrychioli yno.

5.6 Lle bydd angen ymweliadau fel rhan o’r broses o wneud penderfyniadau, dylech sicrhau bod y Cyngor yn ariannu’r ymweliadau hynny er mwyn diogelu tegwch y penderfyniadau sydd yn deillio ohonynt.

5.7 Bydd yn dderbyniol i chi dderbyn lletygarwch trwy fod yn bresennol mewn cynadleddau a chyrsiau perthnasol lle bydd yn amlwg mai corfforaethol ac nid personol yw’r lletygarwch, lle bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd ymlaen llaw a lle sicrheir y Cyngor na chyfaddawdir unrhyw benderfyniadau gan y Cyngor.

5.8 Medrwch dderbyn lluniaeth arferol mewn cysylltiad â’ch gwaith fel aelod (te, coffi, bisgedi a.y.b).

**6. Swyddog Monitro**

6.1 Os oes gennych amheuaeth ynglŷn ag unrhyw gynnig, dylech ofyn am gyngor y Swyddog Monitro.

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau 2008-2012**

| Dyddiad ar y ffurflen/ebost | Rhodd/Lletygarwch a ddatganwyd | Derbyniwyd/ Gwrthodwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|
| 22/5/08 | Botel Champagne . Rhodd gan Mr Alun Gerrard a weithredodd fel eilydd ar gyfer papurau enwebu'r Cynghorydd | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 16/07/08 | Digwyddiadau dathlu 70 oed Hufenfa De Arfon. Gwahoddiad gan Hugenfa De Arfon | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 29/09/08 | Tocynnau Gŵyl y Faenol – Gwahoddiad gan Lywodraeth y Cynulliad. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 05/11/08 | Plac Gwydr gan Faer Pentref Huchenfeld – gefeillio Llanbedr a Huchenfeld | Derbyniwyd | ? |
| 12/11/08 | Lluniaeth gan berchennog Plas Glynllifon (gwahoddiad gan Barc Glyniffon i'r Ŵyl Grefft ) | Derbyniwyd | Tua £5 |
| 12/11/08 | Lluniaeth gan berchennog Plas Glynllifon(gwahoddiad gan Barc Glyniffon i'r Ŵyl Grefft ) | Derbyniwyd | ? |
| 21/04/09 | Potel Whisgi fel gwerthfawrogiad gan etholwr | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 19/11/09 | Cinio efo Clwb Hwylio Meirionnydd – Gwahoddiad gan clwb Hwylio Meirionnydd i ddathlu pryniant y tir oddi wrth y Cyngor. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 01/12/09 | Potel Win – gan etholwr fel gwerthfawrogiad | Derbyniwyd | ? |
| 12/1/10 | Cinio gyda Cymdeithas Tai Cartrefi Gwynedd – gwahoddiad gan Gartrefi Gwynedd | Derbyniwyd | Tua £25 |
| 20/2/10 | Noson Lansio "Snowdonia 1890" – gwahoddiad gan y BBC | Derbyniwyd | ? |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Cwmni TRIBAL | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Bwrdd Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cymru | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Noson Wobrywo Yr LGC – gwahoddiad Cwmni Procserve | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad y Cwmni Iaith | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Solace 11/2/10 | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Welsh Politician of the Year- gwahoddiad y Welsh Year Book | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio David Hawker | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Gala Gŵyl Geltaidd - Gwahoddiad Cwmni Barcud/Gŵyl Geltaidd | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Excellence Wales | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Bwrdd Gwasanaethau Lleol | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio ar wahoddiad Solace/WLGA – 12/2/10 | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cinio Bwrdd Partneriaeth y Gogledd | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 08/06/10 | Cyfarfod Ymestyn Llyfrgell Genedlaethol Cymru – gwahoddiad gan y Llyfrgell | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 13/01/11 | Cinio gan Sain yn noson Sefydliad Materion Cymreig | Derbyniwyd | Dros £25 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24/01/11 | Cinio Sefydliad Materion Cymreig | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 24/01/11 | Cinio gan y WLGA | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 18/03/11 | Tocynnau Peldroed- Caernarfon v Crwydriaid Caernarfon - fel aelod glwb Rygbi Caernarfon gan Glwb Peldroed Caernarfon. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 30/03/11 | Cinio Blynyddol Gofalwyr Maeth Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 30/03/11 | Cinio gan yr "Harlech Society" | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 23/05/11 | Seremoni Sefydlu'r Cyng. Ioan Thomas yn Faer Caernarfon (gwahoddiad gan Gyngor Tref Caernarfon) | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 29/07/11 | 2 x tocyn i gyngerdd agoriadol yr Eisteddfod Genedlaethol gan Gwmni Ynni Gwynt Cymru | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 15 /08/11 | Cinio gan y "Devere Group" | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 31/08/11 | Cinio Gala Wythnos Busnes Gwynedd (Cyngor Gwynedd) | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 06/09/11 | Tocyn gwerth £50 am bryd o fwyd mewn bwyty a dwy botel o win – gan etholwr | Derbyniwyd | Tua £60 |

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau 2012 - 2017**

| **Dyddiad ar y ffurflen/ebost** | **Rhodd/Lletygarwch a ddatganwyd** | **Derbyniwyd/ Gwrthodwyd** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|
| 14/11/12 | Gwahoddiad Swper yng Ngwesty'r Celt gan Gyngor Celfyddydau Cymru | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 14/11/12 | Gwahoddiad tocyn a lluniaeth ar gyfer Gem Rygbi 6 Gwlad yng Nghaerdydd 17/3/12 | Gwrthodwyd | Dros £25 |

# Ffurflen cofrestru rhoddion a lletygarwch aelodau
# Members' gifts and hospitality registration form

**Enw**…………………………………………………………………………………………………………………

**1. Manylion y rhodd neu'r lletygarwch a gynigwyd / Details of gift or hospitality offered:**

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

**2. Y person neu'r corff a wnaeth y cynnig / Person or organisation who made the offer:**

……………………………………………………………………………………………………………………...

……………………………………………………………………………………………………………………

**3. A dderbyniwyd y cynnig? / Was offer accepted?**

**Derbyniwyd/Accepted** ☐

**Gwrthodwyd/Refused** ☐

**4. Gwerth y rhodd neu letygarwch / Value of gift or hospitality:**
*(Rhowch amcangyfrif os na fedrwch roddi ffigwr pendant / Put estimate if you cannot provide precise amount)*

……………………………………………………………………………………………………………………

**Arwyddwyd/Signed**………………………………………………… **Dyddiad/Date**……………………………………..

*(I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro / To be returned to the Monitoring Officer)*

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**www.gwynedd.gov.uk**

*(Mehefin 2006)*